# Canllawiau i gynhyrchwyr cynradd a gweithredwyr busnesau bwyd ar gynhyrchu anifeiliaid hela gwyllt mewn modd hylan

Canllawiau ar ofynion diogelwch a hylendid bwyd sy'n gymwys yn yr amryw sefyllfaoedd lle bo anifeiliaid hela gwyllt (wild game) yn cael eu hela a'u cyflenwi i'w bwyta gan bobl.

Cyhoeddwyd: 25 Gorffennaf 2022

Adolygwyd ddiwethaf: 25 Gorffennaf 2022

Lawrlwytho'r fersiwn PDF:

PDF
Gweld Canllawiau Anifeiliaid Hela Gwyllt as PDF(Open in a new window) (455.1 KB)

## Hanes diwygio

| Rhif y diwygiad | Dyddiad | Diben y diwygiad | Diwygiwyd gan |
|---|---|---|---|
| 2 | 25 Gorffennaf 2022 | Adolygiad cyflawn sy'n cynnwys:<br>• dileu'r adran ar Sefydliadau Trin Helgig Cymeradwy.<br>• cynnwys adran i nodi bod Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd (UE) yn uniongyrchol gymwys yng Ngogledd Iwerddon, a bod Cyfraith yr UE wedi'i diwygio i gyflwyno 'canolfannau casglu ar gyfer anifeiliaid hela gwyllt'.<br>• egluro eithriadau sy'n gymwys i gynhyrchu cynradd.<br><br>Cynnwys adran sy'n cyfeirio masnachwyr at brosesau mewnforio ac allforio oherwydd newidiadau ers 1 Ionawr 2021. | Tîm Polisi Hylendid Cig a Milfeddygol |
| 1 | Tachwedd 2015 | Diweddariad | Paul Stubbington |

| Rhif y diwygiad | Dyddiad | Diben y diwygiad | Diwygiwyd gan |
|---|---|---|---|
| 0 | Mehefin 2014 | Adolygu'n gyfan gwbl | Simon Tudor |

# Crynodeb

# Diben

Darparu canllawiau ar ofynion diogelwch a hylendid bwyd sy'n gymwys yn yr amryw sefyllfaoedd lle bo anifeiliaid hela gwyllt *(wild game)* yn cael eu hela a'u cyflenwi i'w bwyta gan bobl.

# Statws cyfreithiol

Bwriad y canllawiau hyn yw egluro sut i gydymffurfio â gofynion rheoleiddio mewn perthynas â chyflenwi anifeiliaid hela gwyllt a helgig gwyllt *(wild game meat)* i'w bwyta gan bobl ynghyd â dulliau y gellid eu defnyddio i roi hyder o ran diogelwch bwyd, ond nad ydynt yn ofyniad cyfreithiol.

# Ar gyfer pwy mae'r canllawiau hyn?

Mae'r canllawiau anifeiliaid hela gwyllt hyn wedi'u bwriadu ar gyfer:

- Cynhyrchwyr cynradd (er enghraifft helwyr, aelodau o bartïon hela, ystadau saethu).
- Gweithredwyr busnesau bwyd.
- Swyddogion Gorfodi: Awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, Cynghorau Dosbarth yng Ngogledd Iwerddon, yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a'r Adran Amaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA).

# I ba wledydd yn y Deyrnas Unedig (DU) mae'r canllawiau hyn yn berthnasol?

- Lloegr
- Cymru
- Gogledd Iwerddon

# Dyddiad adolygu

Y dyddiad adolygu nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer y canllawiau hyn yw mis Gorffennaf 2023.